# GOFAL Ysgrifennu

Golwg Fanwl ar Lythrennedd

Blaenlythrennau'r disgybl:

Dyddiad geni:

Ysgol:

Cynnwys:

Y1. Sillafu Geiriau Unigol A

Y2. Sillafu Geiriau Unigol B

Y3. Cyflymdra Ysgrifennu a chywirdeb sillafu Cymraeg

## Y1. Sillafu geiriau unigol A

Bydd angen darn o bapur llinellau ar y disgybl, a phen neu bensil i ysgrifennu.

Gellir gweinyddu'r profion sillafu ac ysgrifennu fesul grŵp neu'n unigol.

Dwedwch:

*"Rwy'n mynd i ddweud cyfres o eiriau ac rwyf eisiau i chi eu hysgrifennu. Arhoswch nes fy mod wedi gorffen dweud y gair cyn ysgrifennu. Rwy'n mynd i ddweud y gair, yna byddaf yn ei ddefnyddio mewn brawddeg, ac yna byddaf yn ei ddweud eto. Rwyf eisiau i chi geisio ysgrifennu pob gair, ond nid y brawddegau cyfan, hyd yn oed os nad ydych chi'n siŵr sut i ysgrifennu'r gair."*

Enghraifft: *"Mam. Mae mam yn y car. Ysgrifennwch 'mam'."*

| | Eitem | Brawddeg |
|---|---|---|
| 1 | mam | Mae mam yn y car. |
| 2 | dod | Wyt ti'n dod i'r parti? |
| 3 | peth | Gwnewch un peth ar y tro. |
| 4 | dosbarth | Ewch i'r dosbarth cofrestru, os gwelwch yn dda! |
| 5 | llaw | Mae pum bys ar fy llaw. |
| 6 | hwyl | Mae llawer o hwyl i'w gael yng ngwersyll Llangrannog. |
| 7 | nifer | Mae nifer o blant yr ysgol yn canu mewn côr. |
| 8 | mis | Sawl mis sydd mewn blwyddyn? |
| 9 | poeth | Mae'n well gen i dywydd poeth nag oer. |
| 10 | trin | Mae'r doctor yn trin dwsinau o gleifion mewn wythnos. |
| 11 | gwlad | Peth cyffrous yw ymweld â gwlad arall. |
| 12 | croeso | Rhaid ymestyn croeso i ymwelwyr i'r pentref. |
| 13 | cerdded | Yfory byddwn yn cerdded ar hyd yr afon. |
| 14 | hanner | Hoffet ti gael hanner y frechdan hon? |
| 15 | achosi | Doedd y plentyn ddim yn bwriadu achosi difrod i'r tŷ gwydr. |
| 16 | cefn | Mae Huw yn eistedd ym mlaen y car a Sara yn eistedd yn y cefn. |
| 17 | canolfan | Mae fy chwaer am gael ei pharti mewn canolfan hamdden. |
| 18 | gwledig | Mewn ardaloedd gwledig, weithiau mae rhaid teithio'n bell i gyrraedd siop fawr. |
| 19 | canlyniad | Rwy'n aros i glywed canlyniad y prawf. |
| 20 | llyfrgell | Lle da i weithio a darllen yw'r llyfrgell. |
| 21 | penderfyniad | Bu'r pwyllgor yn trafod am oriau cyn gwneud penderfyniad. |
| 22 | cryf | Peiriant cryf iawn yw Jac Codi Baw. |
| 23 | crwydro | Roedd y ci bach yn crwydro am oriau nes cyrraedd adref. |
| 24 | gwneud | Rydw i wedi gwneud cerdyn penblwydd i ti! |
| 25 | perffaith | Mae'n anodd dylunio cylch perffaith! |
| 26 | annwyl | Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi. |
| 27 | oedolyn | Pris tocyn oedolyn yw pum punt. |
| 28 | ffurfio | Weithiau, mae angen ymarfer ffurfio llythrennau yn gywir. |
| 29 | cenedlaethol | Dylai pawb cefnogi'r tîm cenedlaethol. |
| 30 | rhywun | Mae rhywun wrth y drws! |
| 31 | seiliedig | Roedd yr erthygl yn seiliedig ar gyfweliad gyda'r Prif Weinidog. |
| 32 | adlewyrchu | Mae'r lleuad yn adlewyrchu golau'r haul. |
| 33 | unigryw | Mae'r ffrog briodas hon yn unigryw. |
| 34 | dibynnu | Mae'r ffarmwr yn dibynnu'n llwyr ar ei gi defaid. |
| ***Rhowch 1 marc ar gyfer pob ateb cywir*** | | ***Cyfanswm*** |

## Y2. Sillafu geiriau unigol B

Bydd angen darn o bapur llinellau ar y disgybl, a phen neu bensil i ysgrifennu.

Gellir gweinyddu’r profion sillafu ac ysgrifennu fesul grŵp neu’n unigol.

Dwedwch:

*“Rwy'n mynd i ddweud cyfres o eiriau ac rwyf eisiau i chi eu hysgrifennu. Arhoswch nes fy mod wedi gorffen dweud y gair cyn ysgrifennu. Rwy'n mynd i ddweud y gair, yna byddaf yn ei ddefnyddio mewn brawddeg, ac yna byddaf yn ei ddweud eto. Rwyf eisiau i chi geisio ysgrifennu pob gair, ond nid y brawddegau cyfan, hyd yn oed os nad ydych chi'n siŵr sut i ysgrifennu'r gair.”*

Enghraifft: *“Pen. Cost y daith yw punt y pen. Ysgrifennwch ‘pen’.”*

| | Eitem | Brawddeg |
|---|---|---|
| 1 | pen | Cost y daith yw punt y pen. |
| 2 | dal | Fedra i ddim dal y bêl. |
| 3 | coch | Os oes golau coch, arhoswch. |
| 4 | dyfodol | Bydd y project yn dechrau yn y dyfodol agos. |
| 5 | awr | Ar ôl awr o aros, daeth y bws o'r diwedd. |
| 6 | bwyd | Roedd y bwyd yn flasus iawn yn y bwyty lleol. |
| 7 | meddwl | Weithiau mae fy meddwl yn crwydro yn lle canolbwyntio! |
| 8 | anferth | Roedd castell anferth ar ben y bryn. |
| 9 | llawn | Roedd y llong yn llawn teithwyr cyffrous. |
| 10 | adnabod | Doeddwn i ddim yn adnabod yr ymwelwyr. |
| 11 | gweld | Roedd yn braf gweld y machlud dros y môr neithiwr. |
| 12 | teulu | Bydd y teulu i gyd yn ymgynnull ar gyfer y Nadolig. |
| 13 | torri | Rhaid torri'r siâp yn ofalus gyda siswrn. |
| 14 | hwnnw | Dwi'n meddwl mai hwnnw yw'r athro newydd. |
| 15 | creu | Ydy hi'n bosib creu model Lego o'r ysgol? |
| 16 | syth | Rhedodd y ci yn syth at y bêl heb oedi. |
| 17 | teithio | Braf byddai teithio i'r lleuad rhyw ddydd! |
| 18 | cyffredin | Mae'r frân yn aderyn cyffredin yng Nghymru. |
| 19 | adeilad | Mae'r llyfrgell wedi ei leoli mewn adeilad newydd. |
| 20 | sefyllfa | Mae'r sefyllfa yn gofyn i ni feddwl yn ofalus. |
| 21 | ennill | Roedd hi'n hapus i ennill y gêm. |
| 22 | byw | Faint o bobl sy'n byw yng Nghymru? |
| 23 | papur | Rhowch eich enw a'r dyddiad ar y papur glas. |
| 24 | ysbyty | Aeth y claf i'r ysbyty am driniaeth. |
| 25 | dychwelyd | Roedd yn braf dychwelyd adref ar ôl y gwyliau. |
| 26 | amddiffyn | Mae'n bwysig amddiffyn eich hun rhag y tywydd garw. |
| 27 | amrywiol | Mae'r siop yn gwerthu losin amrywiol i bawb. |
| 28 | cymhleth | Mae problemau cymhleth yn anodd eu datrys. |
| 29 | cynulleidfa | Mae gofyn i bob cynulleidfa aros yn dawel i'r perfformwyr. |
| 30 | anwybyddu | Ni ddylai neb anwybyddu rheolau ysgol. |
| 31 | ieithyddol | Mae'n bwysig cadw traddodiadau ieithyddol yn ein cymuned. |
| 32 | llwyddiannus | Ar ôl llawer o waith caled, roeddwn i'n llwyddiannus. |
| 33 | amrywiaeth | Mae'r ardd yn llawn amrywiaeth o flodau hardd. |
| 34 | diwylliannol | Mae'r gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar ddylanwadau diwylliannol yn y gymdeithas. |

| | | |
|---|---|---|
| ***Rhowch 1 marc ar gyfer pob ateb cywir*** | ***Cyfanswm*** | |

## Y3. Cyflymdra ysgrifennu

Bydd angen darn o bapur llinellau ar y disgybl, a phen neu bensil i ysgrifennu. Rhowch y sbardun ysgrifennu i'r disgybl/ ion.


Dwedwch:

*Rwyf i am i chi ysgrifennu am ddeg munud. Rwyf am i chi ysgrifennu fel petaech chi'n gwneud gwaith dosbarth – eich cyflymdra arferol wrth ysgrifennu. Fe fydd gennych chi gwpl o funudau i gynllunio ac yna byddaf yn dechrau'r cloc pan fyddwch yn barod i ysgrifennu.*

*Rwyf am i chi ysgrifennu amdanoch chi eich hun. Dyma rai syniadau i helpu. Does dim rhaid dweud y gwir - fe allech chi wneud yr holl beth i fyny os hoffech, neu fe allech chi ysgrifennu am unrhyw beth arall sydd o ddiddordeb i chi. Dim ond eich bod yn parhau i ysgrifennu ar gyflymdra arferol am y deg munud cyfan.*

*Ysgrifennwch mewn brawddegau a defnyddiwch baragraffau os ydych chi'n gallu. Peidiwch boeni'n ormodol am sillafu oherwydd prif bwrpas y prawf yw gweld faint o eiriau allech chi ysgrifennu mewn deg munud.*

Rhowch gyfle i ofyn cwestiynau a phan fod y disgybl/ ion yn barod, dwedwch wrthynt i ddechrau.



## Canllawiau marcio

Cyfrifwch pob gair a ysgrifennwyd o fewn y 10 munud.

Cyfrwch geiriau os ydynt:

- 2 lythyren neu fwy (heblaw geiriau go iawn fel “i”, sydd yn cyfri fel un gair
- Yn ddealladwy
- Yn annealladwy
- Wedi eu sillafu’n gywir
- Wedi eu sillafu’n anghywir
- Wedi eu croesi allan

Cyfrifwch rhifau fel un gair.

Cyfrifwch talfyriadau (abbreviations) fel un gair.

Cyfrifwch dyddiadau (ee 12.3.24) fel un gair.

Os ydy disgybl yn ysgrifennu dau air neu fwy fel un gair, cyfrifwch y nifer cywir o eiriau. Er enghraifft, fe fyddai “Rydwi” yn cyfri fel 2 air.

| | |
|---|---|
| Nifer o eiriau a ysgrifennwyd | |
| Nifer o wallau sillafu geiriau Cymraeg * | |
| Canran gwallau sillafu Cymraeg * | |

* Gweler y canllaw am fanylion marcio’r prawf